

# Llunwyr Cynnwys i'r Cyfryngau Cymdeithasol

Mae cyfrif Instagram Bloedd Amgueddfa Cymru yn llwyfan lle rydyn ni'n rhannu gweithdai, digwyddiadau a phrojectau. Bydden ni wrth ein bodd hefyd yn adlewyrchu diddordebau ac angerdd oedolion ifanc sy'n byw yng Nghymru heddiw, gan edrych ar dreftadaeth a rhannu safbwyntiau ar ein casgliadau ac ar safleoedd yr Amgueddfa yn ddigidol. Instagram Bloedd Amgueddfa Cymru

Rydyn ni'n chwilio am grŵp o Gynhyrchwyr Amgueddfa Cymru o bob cwr o Gymru sy'n awyddus i gynhyrchu cynnwys i ni ei rannu ar ein llwyfannau yn y cyfryngau cymdeithasol a chydweithio'n ehangach gyda thîm marchnata Amgueddfa Cymru. Bydd yna gyfleoedd golygu hefyd, i greu cynnwys byr ar sail dogfennau fideo'r project.

Mae gennyn ni wyth safle ledled Cymru. Gallwch ddod i'w hadnabod nhw'n well yma:

Hafan | Amgueddfa Cymru

Mae gan bob amgueddfa gasgliadau, arddangosfeydd, projectau a rhaglen ddigwyddiadau ei hun. Rydyn ni ledu'r neges am y rhain mewn ffyrdd sy'n ddeniadol i gynulledifa iau. Byddai hwn hefyd yn gyfle gwych inni wneud gwaith estyn allan digidol i ehangu cydweithfa Cynhyrchwyr Amgueddfa Cymru. Byddwch chi'n cael cefnogaeth Cydlynwyr Ymgysylltu a Gwirfoddoli pob safle.

Rydyn ni am gynyddu ein pŵl o gynhyrchwyr iaith Gymraeg hefyd, ond dyw hyn ddim yn hanfodol i'r rôl. Rydyn ni hefyd yn croesawu creu a rhannu deunydd mewn ieithoedd eraill sy'n berthnasol i dreftadaeth Cymru.

Beth fyddwn ni'n ei wneud

- Dylunio postiadau
- Creu riliau
- Golygu deunyddiau byr
- Cynhyrchu a phrawfddarllen trawsgrifiadau
- Brandio ac isdeitlo – polisi iaith dwyieithog
- Cyfle llawrydd yw hwn

Parhau...

BLOEDD ACP AMGUEDDFA CYMRU



**Tâl:**

Yn dibynnu ar y gwaith

**Rydyn ni eisiau gwybod:**

Mae'n rhaid i chi fod yn 16 – 25 oed ac yn byw yng Nghymru i wneud cais.

- Rhywfaint o wybodaeth amdanoch chi
- Pam ydych chi am ymgeisio am y rôl
- Pa brofiad bywyd, gwaith blaenorol neu wirfoddoli sy'n berthnasol i'r rôl hon?
- Mae croeso i chi anfon showreel, neu ddolen i'ch gwaith.
- Cofiwch gynnwys pa amgueddfa/amgueddfeydd y byddech chi'n gweithio ynddi. Rydyn ni'n chwilio am gynhyrchwyr cynnwys o bob cwr o Gymru i weithio ym mhob amgueddfa.

Gallwch chi lawrlwytho'r ffurflen gais o wefan Amgueddfa Cymru, ei llenwi a'i hanfon at ymgysylltu@amgueddfacymru.ac.uk.

Gallwch chi hefyd wneud cais gyda fideo neu glip sain 2 funud o hyd.

Os ydych chi angen help i lenwi'r ffurflen gais, ffoniwch ni ar [029 2057 3002].

Mae ceisiadau ar agor tan Chwefror Unwaith i chi gyflwyno'ch cais, fe fyddwn yn cysylltu i gadarnhau eich bod chi'n rhan o'n pwll o grewyr cynnwys.

Mae'n ofynnol i ni ddilyn polisi Hawl i Weithio Llywodraeth y DU. Gwnewch gais dim ond os oes gennych hawl i weithio yn y DU. Gallwch wirio yma: Profwch eich hawl i weithio i gyflogwr: Trosolwg – GOV.UK

Gan fod y cyfle hwn yn gyfyngedig i nifer fach o rolau, dim ond ychydig o bobl ddethol y byddwn yn gallu eu gwahodd am sgwrs anffurfiol cyn cynnig y swydd.

Gallwch ymuno â'n rhwydwaith Cynhyrchwyr Amgueddfa Cymru yma, lle'r ydym yn rhannu mwy o wybodaeth am gyfleoedd lle gallwch gael eich talu, digwyddiadau cyfranogol, a gweithdai.

BLOEDD ACP

AMGUEDDFA CYMRU